

Crynodeb o Safonau

Llwyddo

Dylai ymgeiswyr sydd wedi Llwyddo yn y Dystysgrif Sgiliau iaith allu eu mynegi eu hunain a syniadau yn dda ar lafar. Bydd angen goruchwyllo a phrawf ddarllen gwaith ysgrifenedig yr ymgeiswyr.

Llafar

- Siarad yn eglur ac yn rhugl
- Deall a defnyddio cyweiriau iaith priodol, er y bydd angen arweiniad mewn sefyllfaoedd ffurfiol
- Defnyddio geirfa ddigonol ac addas

Ysgrifennu

- Deall tasgau a osodir
- Ysgrifennu'n ddealladwy
- Cwblhau tasgau ysgrifenedig syml megis ysgrifennu e-byst
- Defnyddio cystrawennau syml
- Defnyddio rhai brawddegau cymhleth
- Deall cyweiriau iaith priodol, ond bydd angen cymorth a goruchwyliaeth wrth lunio dogfennau ffurfiol
- Rhoi strwythur boddhaol i waith ysgrifenedig
- Bydd angen prawf ddarllen gwaith ysgrifenedig

Clod

Dylai ymgeiswyr sydd wedi llwyddo gyda Chlod yn y Dystysgrif Sgiliau iaith allu eu mynegi eu hunain a syniadau yn dda iawn ar lafar. Bydd angen rhywfaint o oruchwyllo a phrawf ddarllen ar waith ysgrifenedig yr ymgeiswyr.

Llafar

- Siarad yn rhugl, yn eglur ac yn gywir
- Deall a defnyddio cyweiriau iaith priodol, ond efallai y bydd angen rhywfaint o arweiniad o dro i dro yn y sefyllfaoedd mwyaf ffurfiol
- Defnyddio geirfa eang ac addas

Ysgrifennu

- Meddu ar ymwybyddiaeth dda o gywirdeb iaith a dealltwriaeth o reolau gramadeg
- Defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol yn effeithiol i wirio gwaith ysgrifenedig
- Defnyddio priod-ddulliau ac amrywiaeth o gystrawennau
- Cwblhau tasgau ysgrifenedig gweddol heriol heb oruchwyliaeth ond efallai y bydd angen ychydig o brawf ddarllen
- Deall a defnyddio gwahanol gyweiriau iaith
- Strwythuro gwaith yn dda, gan atalnodi a pharagraffu'n gywir

Rhagoriaeth

Dylai ymgeiswyr sydd wedi llwyddo gyda Rhagoriaeth yn y Dystysgrif Sgiliau iaith allu eu mynegi eu hunain a syniadau yn ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig. Lleiafswm o oruchwyllo a phrawf ddarllen fydd ei angen ar eu gwaith.

Llafar

- Siarad yn gwbl rugl, cywir a chliir
- Amrywio cyweiriau iaith yn briodol
- Cyfrannu'n effeithiol ar lafar mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- Defnyddio geirfa eang iawn a chwbl addas

Ysgrifennu

- Ysgrifennu'n gywir a dangos ymwybyddiaeth gadarn o gywirdeb iaith a dealltwriaeth dda iawn o reolau gramadeg
- Defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol yn gampus i wirio gwaith ysgrifenedig
- Defnyddio priod-ddulliau naturiol ac amrywiaeth o gystrawennau yn hawdd a chliir
- Cwblhau tasgau ysgrifenedig cymhleth heb oruchwyliaeth
- Deall a defnyddio'n effeithiol ystod eang o gyweiriau iaith
- Strwythuro gwaith ysgrifenedig yn gadarn, gan atalnodi a pharagraffu'n gywir ac yn effeithiol